



Yn ddiweddar bu i 'Sion a Sian' fwynhau taith i Amgueddfa Tacla Taid (Amgueddfa Cludiant Ynys Môn), Niwbwrch, Ynys Môn.

Hydref y 4ydd, 1907 – The Weekly News

DYN O DDOLWYDDELEN HEB DRWYDDED

Cafodd John Davies, Dolawel, Dolwyddelen, ei gyhuddo gan Mr. W H Darbyshire, Swyddog Inland Revenue o gadw ci heb drwydded. Dywedodd y diffynnydd ar Fehefin yr 11eg nad oedd yn berchen ar gi ond roedd gan ei wraig gi. Dangosodd drwydded am gi ei wraig a gafodd ei gyflwyno yn hwyrach ym mis Mehefin. Dywedodd P.C. Evans, Dolwyddelen, ei fod wedi gweld ci yn eiddo'r diffynnydd ar y dyddiad dan sylw a bod y ci wedi bod yno am gryn dipyn o amser. Roedd yn hen gi ac ni fu i'r diffynnydd wadu mae ei gi o oedd o.

Dywedodd Ellis Jones, garnedd, wedi'i alw gan y diffynnydd, ei fod wedi gwerthu'r ci i Davies; ond gan fod y ci yn dueddol o redeg adref o bob man, ni fu i Davies ei 'brynu' tan gafodd y drwydded ei chyflwyno. Dywedodd hefyd roedd ef (y tyst) yn meddu ar orchymyn eithrio a doedd dim angen trwydded arno.

Dywedodd yr erlynydd mai peth rhyfedd oedd hi na wnaeth y ci geisio rhedeg i ffwrdd unwaith cafodd y drwydded ei chyflwyno. Cafodd yr achos ei wrthod ar sail bod y diffynnydd yn talu'r costau.